Asiantaeth Safonau Bwyd
food.gov.uk

# Labelu Alergenau Rhagofalus (PAL):

## Ymgynghoriad 'Gallai gynnwys'

**Dyddiad lansio:** [06 Rhagfyr 2021]

**Ymateb erbyn:** [14 Mawrth 2022]

## Bydd yr ymgynghoriad hwn o ddiddordeb i'r canlynol:

- busnesau bwyd
- sefydliadau, er enghraifft ysbytai, ysgolion
- cynhyrchwyr cynradd
- cwmnïau trafnidiaeth
- cyrff masnach
- timoedd diogelwch bwyd awdurdodau lleol
- gweithwyr gofal iechyd proffesiynol
- gwyddonwyr ac academyddion
- sefydliadau sy'n cefnogi pobl sydd â gorsensitifrwydd i fwyd
- defnyddwyr sydd â gorsensitifrwydd i fwyd a'r rhai sy'n gofalu am rywun sydd â gorsensitifrwydd i fwyd
- defnyddwyr heb orsensitifrwydd i fwyd
- rhanddeiliaid ehangach

## Pwnc Ymgynghori

Diben yr ymgynghoriad hwn yw cael gwybodaeth a safbwyntiau mewn perthynas â darparu labelu alergenau rhagofalus a gwybodaeth ragofalus am alergenau.

Mae'r ddeddfwriaeth labelu gyfredol yn ei gwneud yn ofynnol i gynhyrchion bwyd nodi presenoldeb unrhyw un o'r 14 prif alergen a ddefnyddir fel cynhwysyn neu gymhorthyn prosesu. Fodd bynnag, mewn achosion lle mae risg o groeshalogi alergenau yn anfwriadol (er enghraifft, lle mae llawer o fwydydd yn cael eu paratoi yn yr un gegin), ac mae'r busnes bwyd wedi pennu na ellir rheoli'r risg yn ddigonol, yr arfer gorau yw defnyddio datganiad labelu alergenau rhagofalus i gyfleu'r risg hon.

Gellir cyfleu'r wybodaeth hon mewn nifer o wahanol ffyrdd: ar **'fwydydd wedi'u pecynnu ymlaen llaw**'* ac ar fwydydd 'heb eu pecynnu ymlaen llaw', sy'n cynnwys **'bwydydd rhydd'**** a bwydydd a ddarperir **'wedi'u pecynnu ymlaen llaw i'w gwerthu'n uniongyrchol' (PPDS)'***.**

Er bod nifer o dermau labelu yn cael eu defnyddio, yr ymadrodd mwyaf cyffredin i ddynodi'r posibilrwydd o groeshalogi alergenau'n anfwriadol yw 'gallai gynnwys', a gellir darparu'r wybodaeth hefyd ar lafar, ar arwyddion ac ar fwydlenni.

## Pwrpas yr Ymgynghoriad

Rydym ni'n ceisio adborth a sylwadau ar y materion sy'n wynebu partïon sydd â buddiant, a fydd yn ein cynorthwyo i ystyried dulliau posibl ar gyfer labelu alergenau rhagofalus ar gyfer bwydydd wedi'u pecynnu ymlaen llaw a gwybodaeth ragofalus am alergenau ar gyfer bwydydd heb eu pecynnu ymlaen llaw, fel bod yr wybodaeth:

- yn cael ei chyfathrebu i ddefnyddwyr yn gliriach ac yn fwy cyson, mewn ffordd ddealladwy ac ystyrlon o ran ffurf a chynnwys yr wybodaeth
- yn seiliedig ar brosesau cymesur a safonol ar gyfer asesu, rheoli a chyfathrebu'r risg o groeshalogi alergenau gan fusnesau bwyd

**Rhaid i unrhyw ddatrysiad fod yn ymarferol i fusnesau bwyd a chadw defnyddwyr yn ddiogel heb gyfyngu ar eu dewis o ran bwyd yn ddiangen.**

* Mae bwydydd wedi'u pecynnu ymlaen llaw yn cynnwys bariau siocled, bisgedi a chynhyrchion eraill sy'n cael eu gwerthu mewn archfarchnadoedd

** Mae bwydydd rhydd yn cynnwys prydau bwyd sy'n cael eu gwneud yn ôl archeb mewn bwyty, neu lysiau a ffrwythau sy'n cael eu gwerthu'n unigol ar stondin farchnad

***Mae bwyd PPDS yn cael ei becynnu yn yr un lle ag y mae'n cael ei gynnig neu ei werthu i ddefnyddwyr ac mae yn y deunydd pecynnu hwn cyn i'r cwsmer ei archebu neu ei ddewis.

# Manylion yr Ymgynghoriad

Cynhyrchwyd yr ymgynghoriad hwn gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) i gael eich barn ar labelu alergenau rhagofalus, a welir yn aml fel datganiadau 'gallai gynnwys' ar gynhyrchion bwyd wedi'u pecynnu ymlaen llaw a gwybodaeth ragofalus am alergenau a ddarperir gyda chynhyrchion bwyd heb eu pecynnu ymlaen llaw. Rydym ni'n argymell cyflwyno ymatebion trwy'r arolwg ar-lein hwn.

## Pwy yw'r Asiantaeth Safonau Bwyd?

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yn adran anweinidogol o Lywodraeth y Deyrnas Unedig (DU) sy'n gyfrifol am ddiogelu iechyd y cyhoedd a diogelu buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Un o'n meysydd cyfrifoldeb yw labelu alergenau, gan gynnwys labelu alergenau rhagofalus a gwybodaeth ragofalus am alergenau.

## Beth yw alergen?

Mae alergen yn sylwedd, sydd fel arfer yn ddiniwed, sy'n gallu ysgogi ymateb sy'n cychwyn yn y system imiwnedd ac sy'n arwain at adwaith alergaidd (neu'n gwaethygu clefyd seliag) mewn rhai unigolion.

Yn yr ymgynghoriad hwn mae alergen dim ond yn cyfeirio at yr 14 alergen sy'n cael eu rheoleiddio yn y DU.

## Beth yw'r 14 alergen sy'n cael eu rheoleiddio?

Yr 14 alergen yw: seleri, grawnfwydydd sy'n cynnwys glwten (fel haidd a cheirch), cramenogion (fel corgimychiaid, crancod a chimychiaid), wyau, pysgod, bysedd y blaidd (*lupin*), llaeth, molysgiaid (fel cregyn gleision ac wystrys), mwstard, pysgnau, sesame, ffa soia, sylffwr deuocsid a sylffitau (os ydynt mewn crynodiad o fwy na deg rhan fesul y miliwn) a chnau coed (fel almonau, cnau cyll, cnau Ffrengig, cnau Brasil, cnau cashew, cnau pecan, cnau pistachio a chnau macadamia).

## Beth yw labelu alergenau rhagofalus neu wybodaeth ragofalus am alergenau?

Datganiad gwirfoddol y gall busnesau bwyd ddewis ei roi ar gynhyrchion bwyd lle mae risg o groeshalogi alergenau. Mae'r datganiad gan amlaf yn nodi "gallai gynnwys alergen x" neu "ddim yn addas i rywun ag alergedd i x" ar gynhyrchion bwyd wedi'u pecynnu ymlaen llaw. Ar gyfer bwydydd nad ydynt wedi'u pecynnu ymlaen llaw (gan gynnwys bwydydd rhydd neu fwydydd wedi'u pecynnu ymlaen llaw i'w gwerthu'n uniongyrchol (PPDS)), efallai na fydd labelu alergenau rhagofalus o reidrwydd ar label, ond yn hytrach yn wybodaeth sy'n ymwneud â risg o groeshalogi alergenau a roddir ar lafar gan staff, neu'n weledol ar arwyddion yn y safle.

## A yw labelu alergenau rhagofalus yn cael ei ddeddfu?

Mae defnyddio labelu alergenau rhagofalus yn wirfoddol ac nid oes fframwaith deddfwriaethol ar gyfer ei gymhwyso, ac eithrio bod rhaid iddo beidio â chamarwain y defnyddiwr, peidio â bod yn amwys neu'n ddryslyd, a lle bo'n briodol dylid ei seilio ar ddata gwyddonol, yn unol â'r darpariaethau yn y Rheoliad Gwybodaeth am Fwyd i Ddefnyddwyr . Fodd bynnag, os na chymhwysir labelu alergenau rhagofalus ac mae'r defnyddiwr yn cael adwaith niweidiol i alergen sy'n bresennol oherwydd croeshalogi, gallai hyn fynd yn groes i Gyfraith Bwyd Cyffredinol.

## Beth yw croeshalogi alergenau neu groes-gyswllt?

Mae croeshalogi neu groes-gyswllt alergenau yn digwydd pan fydd alergen yn cael ei ymgorffori'n anfwriadol mewn bwyd arall na fwriedir iddo gynnwys yr alergen hwnnw. Byddwn yn defnyddio'r term croeshalogi alergenau trwy'r rhan fwyaf o'r ddogfen hon.

## Pryd a pham y dylid defnyddio labelu alergenau rhagofalus?

Nid oes fframwaith deddfwriaethol ar gyfer defnyddio labeli alergenau rhagofalus. Fodd bynnag, barn yr ASB (a amlinellir yn y canllawiau) yw y dylai'r label gyfathrebu i ddefnyddwyr sydd â gorsensitifrwydd i fwyd bod risg anosgoadwy o groeshalogi alergenau'n anfwriadol o fewn y gadwyn gyflenwi bwyd na ellir ei rheoli'n ddigonol. Er enghraifft, gellir defnyddio label 'gallai gynnwys pysgnau' i nodi croeshalogi posibl â physgnau mewn ffatri, neu gellir defnyddio datganiad llafar gan weinydd bwyty, oherwydd

gall pryd gynnwys almonau yn anfwriadol, oherwydd y modd y mae'r bwyd wedi'i baratoi mewn cegin.

## Beth yw'r problemau gyda defnyddio labelu alergenau rhagofalus neu ddarparu gwybodaeth ragofalus am alergenau?

Yr adborth gan ddefnyddwyr a busnesau bwyd yw bod y math hwn o labelu alergenau yn ddryslyd ac nid yw'n addas at y diben. Mae problemau'n cynnwys:

**Dewis** – Mewn sampl o fusnesau bwyd a ddadansoddwyd ar gyfer astudiaeth yr ASB, cynyddodd y gyfran ohonynt sy'n defnyddio labelu alergenau rhagofalus neu'n darparu gwybodaeth ragofalus am alergenau o 29% yn 2012 i 55% yn 2020. Mae defnydd cynyddol o labelu alergenau rhagofalus yn lleihau dewis y defnyddiwr, ac o bosibl yn cyfyngu ar ddeiet. Fodd bynnag, lle mae risgiau anosgoadwy na ellir eu rheoli, dylid defnyddio label alergenau rhagofalus i ddarparu gwybodaeth bwysig o ran risg i ddefnyddwyr sydd â gorsensitifrwydd i fwyd. Mae tensiwn rhwng dewis cyflawn a diogelwch absoliwt – a rhaid sicrhau cydbwysedd.

**Diogelwch** – Nid oes unrhyw ofyniad cyfreithiol i ddefnyddio labelu alergenau rhagofalus, ond o dan Gyfraith Bwyd Gyffredinol, rhaid i fwyd fod yn ddiogel i'w fwyta. Er bod yr ASB wedi cynhyrchu canllawiau yn y maes hwn, a ddiweddarwyd yn ddiweddar, mae adborth gan fusnesau bwyd ac awdurdodau lleol yn dangos bod diffyg eglurder o ran beth yw arfer gorau a chydymffurfiaeth o ran dadansoddi a chyfathrebu'r risg o groeshalogi alergenau.

**Ymddiriedaeth** – Canfu astudiaeth ddiweddar gan yr ASB fod llawer o ddefnyddwyr yn camddeall ac yn amau labelu alergenau rhagofalus ac yn cwestiynu cymhellion busnesau bwyd dros ei ddefnyddio. Canfu'r astudiaeth fod llawer o ddefnyddwyr yn credu ei fod yn aml yn cael ei ddefnyddio fel ymwadiad *(disclaimer)* i ddiogelu busnesau, yn hytrach na'u cadw'n ddiogel ac yn wybodus, gan arwain at ymddygiadau cymryd risg sydd, er eu bod yn cynyddu dewis bwyd, yn lleihau diogelwch.

## Pa waith y mae'r ASB eisoes yn ei wneud i fynd i'r afael â materion gyda labelu alergenau rhagofalus?

Rydym ni wedi bod yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid i gyflawni ystod o weithgareddau a amlinellir isod:

**Canllawiau** – Yn dilyn adborth gan randdeiliaid sy’n paratoi ar gyfer gweithredu’r gyfraith labelu alergenau newydd, a elwir hefyd yn “Gyfraith Natasha”, rydym ni wedi gweithio gyda chyrff masnach, awdurdodau lleol, defnyddwyr, ac eraill i ddiweddaru canllawiau i fusnesau bach a chanolig (busnesau lle mae profion am alergenau yn gyffredinol yn annichonadwy). Mae hyn yn cwmpasu’r camau y dylai busnes eu dilyn cyn penderfynu a ddylid defnyddio labelu alergenau rhagofalus neu ddarparu gwybodaeth ragofalus am alergenau.

**Ymchwil** – Rydym ni wedi comisiynu astudiaethau busnesau bwyd a defnyddwyr i ddeall yn well sut a pham mae busnesau bwyd yn defnyddio labelu alergenau rhagofalus, ac i ddarganfod canfyddiadau defnyddwyr o ran labelu alergenau rhagofalus, gan gynnwys dewisiadau ar gyfer cyfleu’r wybodaeth am risg croeshalogi alergenau. Cyhoeddir adroddiadau llawn o’r ymchwil hon yn 2022.

**CODEX a’r Sefydliad Gwyddorau Bywyd Rhyngwladol (ILSI)** – Rydym ni’n gweithio gydag eraill ar lefel ryngwladol; trwy CODEX rydym ni’n cyfrannu at waith ar osod lefelau ar gyfer alergenau mewn bwyd wedi’i becynnu ymlaen llaw i lywio labelu alergenau rhagofalus ar gyfer y busnesau bwyd hynny sy’n cynnal profion alergenau; mae ILSI yn datblygu canllawiau ymarferol ar gymhwyso asesiad risg meintiol ar gyfer alergenau, ac rydym ni’n cynorthwyo gyda hyn.

### Pryd mae’r ymgynghoriad yn cau?

Mae’n rhaid i chi ymateb erbyn diwedd y dydd ar 14 Mawrth 2022.

## Nod yr Ymgynghoriad

Nod yr ymgynghoriad hwn yw archwilio barn rhanddeiliaid ar ddefnyddio a dehongli labelu alergenau rhagofalus. Rydym ni’n cydnabod yr angen i ddefnyddwyr fod â hyder ac ymddiriedaeth mewn gwybodaeth ragofalus am alergenau.

Rydym ni hefyd yn cydnabod yr angen i gefnogi busnesau bwyd i safoni dulliau rheoli a darparu gwybodaeth am y risg o groeshalogi alergenau, sy’n faes heriol.

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn helpu i ddiffinio’r problemau sy’n cael eu hystyried ac yn asesu gwerth ac effaith dulliau posibl yn y dyfodol ac yn galluogi rhanddeiliaid i gyflwyno syniadau polisi, safbwyntiau eraill, neu ddulliau amgen.

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i baratoi yn unol ag egwyddorion ymgynghori Llywodraeth Ei Mawrhydi.

Gan nad ydym yn cynnig unrhyw ddiwygiadau penodol ar hyn o bryd, nid oes dadansoddiad buddiannau cost wedi'i gynnwys.

## Y Broses Ymgysylltu ac Ymgynghori

Mae'r ASB wedi siarad ag ystod eang o randdeiliaid i baratoi ar gyfer yr ymgynghoriad hwn. Fel rhan o'n gwaith ehangach ar orsensitifrwydd i fwyd, mae panel rhanddeiliaid allanol wedi'i sefydlu, ac rydym ni wedi ymgynghori â nhw fel rhan o'n hymgysylltiad cynnar â'r gwaith hwn. Ym mis Mawrth 2020, cynhaliodd yr ASB Symposiwm Gorsensitifrwydd i Fwyd a oedd yn cynnwys ystod eang o randdeiliaid a oedd yn gallu rhoi adborth ar y materion, a syniadau ar gyfer sut y gellid mynd i'r afael â nhw mewn gweithdy labelu alergenau rhagofalus.

Mae rhanddeiliaid hefyd wedi bod yn rhan o astudiaethau gwyddorau cymdeithasol gan edrych ar ganfyddiadau defnyddwyr o labelu alergenau rhagofalus a sut a pham mae busnesau bwyd yn darparu'r wybodaeth hon. Mae'r ASB hefyd wedi ymgysylltu ag adrannau perthnasol eraill y llywodraeth, cynrychiolwyr defnyddwyr a phartïon sydd â buddiant.

Bydd sesiynau ymgysylltu pellach yn cael eu cynnal yn ystod y cyfnod ymgynghori gyda grwpiau rhanddeiliaid penodol i ganolbwyntio'n fanylach ar ein hystyriaethau cynnar.

Ar ôl i'r cyfnod ymgynghori cyhoeddus ddod i ben, bydd yr holl ymatebion yn cael eu casglu a'u gwerthuso. Yna bydd yr ymatebion yn cael eu crynhoi a'u cyhoeddi ar wefan yr ASB. Defnyddir canlyniadau'r ymarfer i bennu'r camau nesaf o ran cynigion polisi cychwynnol a fydd yn cael eu datblygu ymhellach a'u mireinio.

Bydd yr ASB yn parhau i gydweithio â rhanddeiliaid i ddilysu canfyddiadau wrth i ni ddatblygu dewisiadau.

# Crynodeb o Gwestiynau'r Ymgynghoriad

Mae cwestiynau'r ymgynghoriad wedi'u grwpio'n bedair thema yn seiliedig ar adborth cychwynnol gan randdeiliaid. Dyma'r meysydd allweddol lle byddem yn croesawu barn i gyfrannu at ein hystyriaeth o'r mater hwn.

1. **Darparu Gwybodaeth i Ddefnyddwyr:** Cael barn ar ddewisiadau defnyddwyr mewn perthynas â geiriad a fformat labelu alergenau rhagofalus, a'r potensial ar gyfer darparu gwybodaeth ychwanegol, er enghraifft trwy ap neu wefan, a safoni gwybodaeth ragofalus am alergenau.

2. **Cyngor a Hyfforddiant ar gyfer Busnesau Bwyd:** Ystyried effaith y ddarpariaeth gyfredol o ran cyngor a chanllawiau ar gymhwyso labelu alergenau rhagofalus a'r angen posibl am ddeunydd ychwanegol.

3. **Sicrhau Cydymffurfiaeth:** Cael adborth ar ddehongliad cyfreithiol yr ASB o reoliadau cyfredol ac unrhyw angen am eglurder pellach.

4. **Safonau Dadansoddi Risg ar gyfer Croeshalogi Alergenau:** Nodi'r ffordd orau o wella cysondeb wrth asesu, rheoli a chyfathrebu'r risg o groeshalogi alergenau.

## Sut i ymateb

Rhaid i'r ymatebion ddod i law erbyn diwedd y dydd ar 14 Mawrth 2022.

Y ffordd symlaf i gyflwyno ymateb yw trwy ddefnyddio Survey Monkey.

Fel arall, gellir e-bostio ymatebion i gwestiynau'r ymgynghoriad at pal.consultation@food.gov.uk


# Cwestiynau'r Ymgynghoriad

## Thema 1: Darparu Gwybodaeth i Ddefnyddwyr


Canfu astudiaeth ddiweddar gan yr ASB fod llawer o ddefnyddwyr wedi eu drysu gan ddatganiadau labelu alergenau rhagofalus ar fwydydd wedi'u pecynnu ymlaen llaw, er enghraifft, bariau siocled, bisgedi a chynhyrchion eraill sy'n cael eu gwerthu mewn archfarchnadoedd. Y rheswm am hyn yw y gall geiriad datganiadau labelu alergenau rhagofalus fod yn wahanol rhwng cynhyrchion, ac mae defnyddwyr yn ansicr o ran beth maen nhw'n ei olygu. Hefyd, gall fod yn anodd darllen rhai datganiadau labelu alergenau rhagofalus oherwydd maint y ffont neu'r arddull a ddefnyddir gan y gwneuthurwr.

Mae lluniau 1 a 2 yn enghreifftiau o ddatganiadau labelu alergenau rhagofalus ar gynhyrchion

**Llun 1**



**Llun 2**




Mae'r ASB hefyd yn ymwybodol nad oes eglurder i fusnesau bwyd ar sut i ddarparu labelu alergenau rhagofalus neu wybodaeth ragofalus am alergenau, oherwydd nid oes unrhyw safonau wedi'u gosod.

**Safoni labelu alergenau rhagofalus ar fwydydd wedi'u pecynnu ymlaen llaw**

Mae'r ASB yn ystyried a fyddai'n fuddiol datblygu safonau ar labelu alergenau rhagofalus ar fwydydd wedi'u pecynnu ymlaen llaw a darparu canllawiau newydd ar eiriad, ffont, arddull, a lleoliad datganiad labelu alergenau rhagofalus.

**Cwestiwn 1:** A ddylai datganiadau labelu alergenau rhagofalus ddilyn fformat safonol, fel bod y fformat a’r geiriad yn gyson ar draws yr holl fwydydd sydd wedi’u pecynnu ymlaen llaw?

Isod mae detholiad o’r math o ddatganiadau labelu alergenau rhagofalus a ddefnyddir gan fusnesau bwyd i egluro bod risg y gallai alergenau fod yn bresennol yn anfwriadol mewn cynnyrch bwyd, oherwydd croeshalogi na ellir ei rheoli’n ddigonol.

Mae lluniau 3 a 4 yn enghreifftiau o ddatganiadau labelu alergenau rhagofalus

**Llun 3**



**Llun 4**




**Cwestiwn 2:** Pa mor effeithiol yw'r datganiadau canlynol wrth esbonio'r risg hon?

- Wedi'i wneud/ei gynhyrchu mewn ffatri lle mae [alergen] yn cael ei ddefnyddio
- Gallai fod yn bresennol: [alergen]
- Ni ellir gwarantu ei fod yn rhydd rhag [alergen]
- Ddim yn addas ar gyfer y rheiny sydd ag alergedd i [alergen]

**Cwestiwn 3:** Er mwyn cyfleu yn well y risg y gallai alergen gael ei gynnwys yn anfwriadol mewn bwyd arall, gellid defnyddio'r termau 'croeshalogi' neu 'groes-gyswllt'. Pa ymadrodd sy'n disgrifio'r risg hon yn fwyaf eglur?

- Croeshalogi
- Croes-gyswllt
- Dim un ohonynt
- Ddim yn siŵr
- Arall

**Cwestiwn 4:** Mae'r ASB yn ystyried archwilio canllawiau newydd o ran a ddylai datganiadau labelu alergenau rhagofalus hefyd gynnwys ymadroddion fel 'croeshalogi' neu 'groes-gyswllt'. Trwy ychwanegu'r datganiadau newydd hyn at yr ystod o ddatganiadau labelu alergenau rhagofalus sydd eisoes yn cael eu defnyddio – pa mor effeithiol fyddent o ran esbonio'r risg hon?

- Gallai gynnwys [alergen] oherwydd risg o groeshalogi
- Risg o groeshalogi, gan ei fod wedi'i wneud/ei gynhyrchu mewn ffatri lle defnyddir [alergen]
- Gallai fod yn bresennol oherwydd croeshalogi: [alergen]
- Ni ellir gwarantu ei fod yn rhydd rhag [alergen] oherwydd croeshalogi
- Ddim yn addas ar gyfer y rheiny sydd ag alergedd i [alergen] oherwydd croeshalogi

**Cwestiwn 5:** Os nad oes gan gynnyrch ddatganiad labelu alergenau rhagofalus, sut ydych chi'n meddwl y byddai defnyddiwr sydd â gorsensitifrwydd i fwyd yn dehongli hyn?

Yn ogystal â geiriad datganiadau labelu alergenau rhagofalus, mae'r ASB yn ystyried budd datblygu safonau ar sut mae'r wybodaeth yn cael ei harddangos ar label (er enghraifft, maint ffont testun, arddull ffont, lleoliad ar y deunydd pecynnu) i wella eglurder ar gyfer y defnyddiwr. Er enghraifft, mae'n ofynnol bod gan ddatganiadau alergenau gorfodol ar labeli ffont testun sydd o leiaf 1.2 mm o ran uchder.

**Cwestiwn 6:** A ddylid safoni unrhyw rai o'r pethau canlynol ar labelu alergenau rhagofalus er mwyn gwella eglurder?

a) maint ffont testun – dylid neu na ddylid?

Mae lluniau 5 a 6 yn enghreifftiau o faint ffont testun







b) arddull ffont testun – dylid neu na ddylid

Mae lluniau 7 ac 8 yn enghreifftiau o arddull ffont testun

**Llun 7**





**Llun 8**



c) wedi’ amlygu ar gyfer pwyslais – dylid neu na ddylid?

Mae lluniau 9 a 10 yn enghreifftiau o destun sy'n cael ei amlygu

**Llun 9**





**Llun 10**



d) lleoliad labelu alergenau rhagofalus ar y deunydd pecynnu – dylid neu na ddylid?

Mae lluniau 11 a 12 yn enghreifftiau o leoliad labelu alergenau rhagofalus

**Llun 11**




**Llun 12**



**Darparu Gwybodaeth Bellach am Bresenoldeb Anfwriadol Posibl Alergenau gyda Bwydydd wedi'u Pecynnu Ymlaen Llaw**

Mae ymchwil ddiweddar yn awgrymu y gallai lefel yr wybodaeth ar labelu alergenau rhagofalus fod yn annigonol i alluogi defnyddwyr i wneud penderfyniadau gwybodus o ran a ydynt am fwyta bwyd 'wedi'i becynnu ymlaen llaw' (er enghraifft bariau siocled, bisgedi a chynhyrchion eraill sy'n cael eu gwerthu mewn archfarchnadoedd).

Mae ein hymchwil yn dangos bod defnyddwyr, yn enwedig y rheiny sydd ag alergeddau difrifol neu fwy nag un alergedd, eisiau rhagor o wybodaeth o ran pam y defnyddiwyd y label alergenau rhagofalus. Er enghraifft, disgrifio sut y gallai croeshalogi alergenau ddigwydd a pha fesurau rheoli y mae'r busnes wedi'u rhoi ar waith i leihau'r risg hon. Weithiau bydd defnyddwyr yn cysylltu â busnesau bwyd yn uniongyrchol, gan ofyn am yr wybodaeth hon am eu cynhyrchion.

Pe bai busnesau bwyd yn darparu gwybodaeth bellach am sut y maent yn asesu ac yn rheoli'r risg o groeshalogi alergenau, gallai hyn ddarparu'r **buddion canlynol i'r defnyddiwr**:

- Gallai defnyddwyr ddeall y rheswm dros ddefnyddio labelu alergenau rhagofalus ar gynnyrch
- Efallai y bydd defnyddwyr yn fwy tebygol o fod yn hyderus ac ymddiried yn y labelu alergenau rhagofalus fel adnodd i'w hysbysu a'u diogelu
- Gallai defnyddwyr ddeall sut y gallai croeshalogi ddigwydd

**Budd i fusnesau bwyd** sy'n darparu gwybodaeth bellach ar labelu alergenau rhagofalus yw y byddent yn gallu dangos i ddefnyddwyr eu bod wedi cymryd y gofal a'r ystyriaeth briodol wrth roi labelu alergenau rhagofalus ar gynnyrch.

**Fodd bynnag**, ni fyddai gwybodaeth yn hysbysu'r defnyddiwr o'r tebygolrwydd y bydd alergen yn bresennol, neu ar ba lefel.

**Cwestiwn 7:** A ydych yn cytuno y dylid darparu gwybodaeth bellach o ran pam y defnyddiwyd labelu alergenau rhagofalus ar gynnyrch?

Mae'r ASB yn archwilio a fyddai **dull dwy haen** ar gyfer labelu alergenau rhagofalus yn helpu i fynd i'r afael â'r problemau a nodwyd gan ddefnyddwyr. Byddai'r dull dwy haen hwn yn ymddangos ar labeli cynnyrch gyda thestun fel y canlynol:

**Haen 1: Ddim yn addas ar gyfer** (lle nad yw busnes bwyd wedi darparu gwybodaeth bellach)

**Haen 2: Croeshalogi/croes-gyswllt alergenau posib** (lle mae busnes bwyd wedi darparu gwybodaeth bellach)

**Cwestiwn 8:** A fyddai **dull dwy haen** (fel y disgrifir uchod) ar gyfer labelu alergenau rhagofalus yn ddefnyddiol wrth ddarparu rhagor o wybodaeth i ddefnyddwyr?

Mae maint labeli bwyd yn gyfyngedig a byddai rhywfaint o'r wybodaeth bellach hon yn rhy fanwl i'w rhoi ar y label. Mae'r ASB yn ystyried sut y gallai'r wybodaeth hon fod ar gael i ddefnyddwyr, er enghraifft, gallai gael ei rhoi ar wefan busnes, ei chyhoeddi mewn llyfryn, neu ei chyrchu trwy god QR.

Isod mae rhai enghreifftiau o'r math o wybodaeth bellach y gallai busnesau bwyd ei darparu ar labelu alergenau rhagofalus:

- **Alergen a allai fod wedi'i gynnwys yn anfwriadol yn y bwyd hwn:** Llaeth
- **Sut gallai'r croeshalogi hwn ddigwydd?:** Gall siocled llaeth halogi siocled tywyll pan fydd y llinellau yn cael eu newid yn y ffatri siocled
- **Camau a gymerwyd gan y cwmni i leihau'r risg hon:** Dim – mae'r busnes bwyd wedi cynnal asesiad risg ac wedi dod i'r casgliad na ellir lleihau'r risg
- **Canfyddiadau asesiad risg y cwmni:** Mae risg na ellir ei hosgoi y gallai llaeth fod yn bresennol yn y cynnyrch yn anfwriadol gan achosi adwaith i ddefnyddwyr sydd ag alergedd i laeth
- **Alergen a allai fod wedi'i chynnwys yn anfwriadol yn y bwyd hwn:** Pysgnau
- **Sut gallai'r croeshalogi hwn ddigwydd?:** Mae pysgnau yn gynhwysyn sy'n bresennol yn y ffatri
- **Camau a gymerwyd gan y cwmni i leihau'r risg hon:**
    - Glanhau llinellau rhwng sypiau *(batches)*
    - Awyru i leihau lledaeniad gronynnau yn yr awyr
- **Canfyddiadau asesiad risg y cwmni:** Er gwaethaf y camau a gymerwyd gan y cwmni, mae risg na ellir ei hosgoi y gallai pysgnau fod yn bresennol yn y cynnyrch yn anfwriadol gan achosi adwaith i ddefnyddwyr sydd ag alergedd i bysgnau

**Cwestiwn 9:** Pa un o'r mathau hyn o wybodaeth bellach y dylid ei darparu (os o gwbl)?

- Yr alergen a allai fod wedi'i gynnwys yn anfwriadol yn y bwyd hwn
- Sut y gallai'r croeshalogi hwn ddigwydd
- Camau a gymerwyd gan y cwmni i leihau'r risg hon
- Y risg sy'n aros yn dilyn unrhyw gamau a gymerwyd *(er enghraifft, "Er nad yw'r cynnyrch hwn yn cynnwys llaeth fel cynhwysyn, mae risg y gallai fod yn bresennol oherwydd croeshalogi yn y ffatri, ac nid yw mesurau rheoli yn lliniaru'r risg yn llawn*")
- Dim
- Arall

**Safoni gwybodaeth ragofalus am alergenau ar fwyd heb ei becynnu ymlaen llaw**

Mae bwydydd 'heb eu pecynnu ymlaen llaw' yn cynnwys **'bwydydd rhydd'** (er enghraifft, bwydydd wedi'u gwneud yn ôl archeb mewn bwyty) a bwydydd sy'n cael eu **'pecynnu ymlaen llaw i'w gwerthu'n uniongyrchol'** (er enghraifft, bwydydd sy'n cael eu gwneud, eu pecynnu, eu labelu a'u gwerthu ar yr un safle). Efallai y byddwch chi'n prynu'r bwydydd hyn mewn lleoliad arlwyo, fel siop frechdanau, caffi neu fwyty.

Yr adborth gan ddefnyddwyr yw y gallant gael profiadau cymysg wrth fwyta allan, oherwydd mae diffyg safoni hefyd o ran sut y darperir gwybodaeth ragofalus am alergenau iddynt ar hyn o bryd. Er enghraifft, gellir darparu gwybodaeth ar fwydlen, ar lafar gan staff, neu ar arwydd yn y safle.

Mae'r ASB yn ystyried datblygu **rhestrau gwirio safonol** i gyfleu'r camau a gymerwyd i reoli croeshalogi alergenau ar y safle. Gellid defnyddio'r wybodaeth safonol hon mewn lleoliad arlwyo (fel caffi neu fwyty) ar fwydlenni, byrddau sialc, arwyddion neu ar lafar gan staff, yn ogystal â'r wybodaeth ragofalus benodol am alergenau sy'n ymwneud â'r bwyd, a archebir a gofynion alergedd y cwsmer.

**Cwestiwn 10:** Mewn lleoliad arlwyo, pa mor lwyddiannus y mae pob un o'r datganiadau yn y rhestr wirio isod yn cyfathrebu bod croeshalogi alergenau yn cael ei reoli'n effeithiol?

- Bydd yr holl staff sy'n ymwneud â pharatoi pryd cwsmer yn cael gwybod am ofynion alergen y cwsmer
- Mae'r holl staff wedi'u hyfforddi ar alergenau a gorsensitifrwydd i fwyd ac rydym ni'n gwirio arfer staff yn rheolaidd
- Mae cynhwysion a bwydydd alergenaidd yn cael eu storio ar wahân yn y safle ac wedi'u labelu'n glir
- Defnyddir offer ar wahân (er enghraifft sbatwlâu, hambyrddau, byrddau torri) ar gyfer cwsmeriaid sydd ag alergeddau bwyd
- Bydd bwydydd sy'n alergenaidd i bobl eraill ar eich bwrdd yn cael eu labelu er mwyn osgoi dryswch
- Lle bo'n bosibl, mae bwydydd yn cael eu paratoi yn nhrefn y lleiaf alergenaidd i'r mwyaf alergenaidd i reoli croeshalogi
- Rydym ni'n croesawu adborth gan gwsmeriaid o ran pa mor lwyddiannus rydym ni wedi diwallu eich anghenion alergenau. Cysylltwch â [XXX]

**Cwestiwn 11:** Rydym ni wedi dangos rhai syniadau y mae'r ASB yn eu hystyried o ran darparu gwybodaeth bellach ar labelu alergenau rhagofalus. A oes gennych chi unrhyw sylwadau ychwanegol yr hoffech eu nodi?

## Thema 2: Sicrhau Cydymffurfiaeth

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw ddeddfwriaeth o ran labelu alergenau rhagofalus. Mae'r ASB o'r farn ei bod yn bwysig bod pwrpas cymhwyso'r ddeddfwriaeth yn glir.

**Cwestiwn 12:** A ydych chi'n credu y dylid dim ond defnyddio label alergenau rhagofalus (neu wybodaeth ragofalus am alergenau) pan fydd risg anosgoadwy o groeshalogi alergenau na ellir ei rheoli'n ddigonol?

Mae'r ASB wedi gosod tair safon wirfoddol allweddol ar gyfer sut y dylid defnyddio labelu alergenau rhagofalus os yw busnes bwyd yn penderfynu ei ddefnyddio. Mae'r rhain yn cynnwys:

1. Dim ond pan fydd risg o bresenoldeb anfwriadol alergenau na ellir ei hosgoi wedi'i nodi mewn bwyd y dylid defnyddio label alergenau rhagofalus
2. Dylai datganiadau labelu alergenau rhagofalus gyfeirio'n benodol at un neu ragor o'r 14 alergen sy'n cael eu rheoleiddio gan gyfraith bwyd y DU, sy'n bresennol yn anfwriadol yn y bwyd
3. Ni ddylid defnyddio labelu alergenau rhagofalus ar y cyd â datganiad 'rhydd rhag' *(free-from)* ar gyfer yr un alergen.


Os nad yw busnesau bwyd yn bodloni'r safonau hyn, efallai eu bod wedi mynd yn groes i Reoliad Gwybodaeth am Fwyd i Ddefnyddwyr (FIC). Mae'r rheoliad hwn yn ymdrin â labelu gwybodaeth gyffredinol, faethol a gwirfoddol am fwyd.

**Cwestiwn 13:** Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â safonau allweddol canlynol yr ASB?

- Gallai labelu alergenau rhagofalus fod yn wybodaeth fwyd gamarweiniol os caiff ei chymhwyso heb asesu yn gyntaf a oes risg anosgoadwy o groeshalogi alergenau na ellir ei reoli'n ddigonol
- Gallai datganiad labelu alergenau rhagofalus nad yw'n nodi alergenau unigol fod yn gamarweiniol (er enghraifft, 'gallai gynnwys **alergenau'**, neu 'gallai gynnwys **cnau'** heb nodi pysgnau neu gnau coed yn benodol)

Mae llun 13 yn enghraifft o ddatganiad 'gallai gynnwys alergenau'

**Llun 13**




- Gallai label alergenau rhagofalus a gymhwysir ar y cyd â honiad ‘rhydd rhag’ ar gyfer yr un alergen fod yn gamarweiniol – gweler yr enghraifft isod.

Mae llun 14 yn enghraifft o labelu alergenau rhagofalus a ddefnyddir ar y cyd â honiad ‘rhydd rhag’ am yr un alergen

**Llun 14**



Gellid cynnwys gwybodaeth yn y Rheoliad Gwybodaeth am Fwyd i Ddefnyddwyr ar sut y mae angen defnyddio labelu alergenau rhagofalus (er enghraifft erthygl benodol sy'n nodi bod yn rhaid i labelu alergenau rhagofalus gyfeirio at alergenau penodol).

**Cwestiwn 14:** A ydych chi'n credu bod angen diwygiadau i'r Rheoliad Gwybodaeth am Fwyd i Ddefnyddwyr i ddarparu eglurder o ran y gofynion cyfreithiol ar gyfer defnyddio labeli alergenau rhagofalus?

**Cwestiwn 15:** Rydym ni wedi gofyn rhai cwestiynau i chi o ran cydymffurfio â labelu alergenau rhagofalus, a oes gennych chi unrhyw sylwadau ychwanegol yr hoffech eu nodi?

**Pwysig: Mae'r ddwy adran nesaf yn gofyn cwestiynau sy'n ymwneud â chyngor a chanllawiau i fusnesau bwyd, a dadansoddi risg o groeshalogi alergenau o fewn cadwyni cyflenwi bwyd Gallai rhai o'r cwestiynau ymddangos yn dechnegol iawn oni bai eich bod yn gyfarwydd â'r meysydd, felly mae croeso i chi symud ymlaen i'r adran 'eich syniadau mawr.'**

## Thema 3: Cyngor a Hyfforddiant

Mae'r ASB yn gwerthfawrogi nad yw'n hawdd i fusnesau bwyd benderfynu a ddylid defnyddio labelu alergenau rhagofalus ar gynhyrchion bwyd.

Ar hyn o bryd, ceir cyngor ar wefan yr ASB (food.gov.uk) i helpu i gefnogi busnesau i ddefnyddio labelu alergenau rhagofalus ac ar sut mae darparu gwybodaeth ragofalus am alergenau i ddefnyddwyr, gan gynnwys:

- **Hyfforddiant ar-lein alergeddau ac anoddefiadau bwyd –** mae hyn yn cynnwys modiwl ar ddefnyddio labelu alergenau rhagofalus gwirfoddol
- Canllawiau labelu alergenau rhagofalus yr **ASB ar gyfer busnesau bwyd bach a chanolig** gyda rhestr wirio gysylltiedig
- **Canllawiau Technegol** ar ofynion labelu a gwybodaeth mewn perthynas ag alergeddau bwyd

Hoffem ddeall a yw cyngor a hyfforddiant cyfredol a ddarperir i fusnesau bwyd yn ddigonol, neu a oes angen cefnogaeth bellach.

**Cwestiwn 16:** Ydych chi'n ymwybodol o'r cyngor a'r hyfforddiant canlynol a ddarperir gan yr ASB ar hyn o bryd?

- Hyfforddiant ar-lein alergeddau ac anoddefiadau bwyd
- Canllawiau labelu alergenau rhagofalus yr ASB ar gyfer busnesau bwyd bach a chanolig gyda rhestr wirio gysylltiedig
- Canllawiau Technegol ar gyfer gwybodaeth dechnegol fanwl

Mae'r ASB hefyd wedi cynhyrchu canllawiau labelu alergenau rhagofalus ychwanegol, wedi'u hanelu'n benodol at fusnesau llai. Mae'r canllawiau hyn yn cynnwys y canlynol:

**Y broses ddadansoddi risg 4 cam**

**Dadansoddiad risg ar gyfer croeshalogi alergenau**

Bydd cynnal dadansoddiad risg yn caniatáu i'ch busnes nodi'r risg o groeshalogi alergenau, penderfynu a yw labelu alergenau rhagofalus yn briodol, a chytuno ar y camau nesaf.  Mae'r broses dadansoddi risg hon yn cynnwys pedwar cam:

1. Asesu risg – beth yw'r risg?
2. Rheoli risg – a ellir rheoli'r risg? Pa gamau a allai leihau'r risg?
3. Cyfathrebu risg – sut y dylid cyfleu'r risg?
4. Adolygu risg – a yw'r risg wedi newid? Pa mor aml y byddwch chi'n adolygu'ch system?

**Cwestiwn 17:** Ydych chi'n ymwybodol o'r canllawiau ar y broses o ddadansoddi risg 4 cam ar gyfer croeshalogi (uchod)?

**Cwestiwn 18:** Pa mor ddefnyddiol yw'r canllawiau hyn wrth helpu busnesau bwyd i reoli croeshalogi alergenau?

Mae’r canllawiau newydd hyn ar labelu alergenau rhagofalus hefyd yn cynnwys y canlynol:

**Y rhestr wirio 8 pwynt ar labelu alergenau rhagofalus**

1. Nodi ffynonellau alergenau posibl
2. Nodi achosion o groeshalogi alergenau
3. Cael gwared ar neu amnewid alergenau
4. Gwahanu alergenau
5. Glanhau pwyntiau croeshalogi alergenau
6. Pryd mae defnyddio labelu alergenau rhagofalus?
7. Sut mae defnyddio labelu alergenau rhagofalus
8. Adolygu

**Cwestiwn 19:** Ydych chi’n ymwybodol o’r rhestr wirio 8 pwynt ar labelu alergenau rhagofalus?

**Cwestiwn 20:** Pa mor ddefnyddiol yw’r canllawiau hyn wrth helpu busnesau bwyd i reoli croeshalogi alergenau?

**Cwestiwn 21:** Ydych chi’n ymwybodol o ffynonellau gwybodaeth eraill sy’n ymwneud â labelu alergenau rhagofalus?

**Cwestiwn 22:** I ba raddau ydych chi’n cytuno bod y cyngor a’r canllawiau sydd ar gael ar hyn o bryd i fusnesau yn ddigonol i’w galluogi i ddefnyddio labelu alergenau rhagofalus yn briodol?

**Cwestiwn 23:** Ydych chi'n meddwl y dylid bod angen unrhyw un o'r cyngor a'r canllawiau canlynol mewn perthynas â labelu alergenau rhagofalus?

- Canllawiau yn y sector bwyd er enghraifft, arlwyo, manwerthu
- Rhestrau gwirio labelu alergenau rhagofalus sy'n berthnasol i sectorau busnes penodol – er enghraifft, ar gyfer gwneuthurwyr caws neu fwytai
- Astudiaethau achos yn dangos enghreifftiau go iawn o fusnesau bwyd yn dilyn arfer gorau o ran labelu alergenau rhagofalus
- Hyfforddiant ar-lein i fusnesau ar sut i ddefnyddio labelu alergenau rhagofalus
- Hyfforddiant wyneb yn wyneb ar sut i ddefnyddio labelu alergenau rhagofalus
- Canllawiau penodol ar effeithiolrwydd glanhau i gael gwared ar groeshalogi neu ei leihau

**Cwestiwn 24:** Rydym ni wedi dangos rhai syniadau y mae'r ASB yn eu hystyried o ran cyngor a chanllawiau ar labelu alergenau rhagofalus, a oes gennych chi unrhyw sylwadau ychwanegol yr hoffech eu nodi?

## Thema 4: Safonau ar gyfer Dadansoddi Risg ar gyfer Croeshalogi Alergenau

Mae yna ddiffyg safonau ar gyfer dadansoddi risg o groeshalogi alergenau mewn cadwyni cyflenwi bwyd. Canfu ymchwil ddiweddar ar gyfer yr ASB fod busnesau bwyd yn cymryd dulliau gwahanol iawn i asesu a rheoli risg cyn defnyddio labelu alergenau rhagofalus, a bod angen safoni defnyddio labelu alergenau rhagofalus.

Mae Dadansoddi Peryglon a Phwyntiau Rheoli Critigol (HACCP) yn ffordd o reoli peryglon diogelwch bwyd. Mae System Rheoli Diogelwch Bwyd (FSMS) yn ddull systematig o reoli peryglon diogelwch bwyd o fewn busnes bwyd er mwyn sicrhau bod bwyd yn ddiogel i'w fwyta. Dylai gweithdrefnau rheoli diogelwch bwyd fod yn seiliedig ar egwyddorion HACCP.

**Cwestiwn 25:** A ddylid ymgorffori labelu alergenau rhagofalus fel rhan o System Rheoli Diogelwch Bwyd (FSMS), neu ei ystyried yn broses ar wahân?

**Cwestiwn 26:** A ddylai fod yn ofynnol i fusnesau sicrhau bod eu prosesau asesu risg a rheoli alergenau ar gael i'r cyhoedd?

Mae busnesau bwyd wedi dweud wrthym eu bod yn ei chael hi'n anodd penderfynu a ddylid defnyddio labelu alergenau rhagofalus oherwydd nad yw'r wybodaeth am alergenau y maent yn ei chael gan eu cyflenwyr yn ddigonol. Ar hyn o bryd nid oes fformat safonol ar gyfer darparu gwybodaeth sy'n ymwneud â chroeshalogi alergenau gan gyflenwyr.

**Cwestiwn 27:** A ddylid safoni gwybodaeth am y risg o groeshalogi alergenau o fewn cadwyni cyflenwi?

**Cwestiwn 28:** A fyddai cynllun achredu newydd yn ffordd dda o sicrhau safonau ar gyfer dadansoddi risg alergenau?

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw lefelau penodol ar gyfer alergenau mewn cynnyrch bwyd terfynol y gellir eu defnyddio i lywio'r modd y cymhwysir labelu alergenau rhagofalus. Oherwydd hyn, nid oes gan fusnesau bwyd sy'n profi am lefelau alergenau mewn cynnyrch bwyd terfynol eglurder o ran a ddylid defnyddio labelu alergenau rhagofalus ai peidio.

**Cwestiwn 29:** A ddylid gosod safon ar gyfer lefelau alergenau i lywio'r modd y caiff labelu alergenau rhagofalus ei gymhwyso at fwydydd wedi'u pecynnu ymlaen llaw?

**Cwestiwn 30:** Rydym ni wedi gofyn cwestiynau i chi o ran y safonau ar gyfer dadansoddi risg croeshalogi alergenau, a oes gennych chi unrhyw sylwadau ychwanegol yr hoffech eu nodi am y pwnc hwn? Os gwelwch yn dda nodwch yn y blwch isod [100 gair ar y mwyaf]

## Eich Syniadau Mawr

**Cwestiwn 31:** Mewn 250 gair neu lai, nodwch pa ddulliau yr hoffech chi eu hawgrymu neu eu cynnig o ran labelu alergenau rhagofalus na chyfeiriwyd atynt hyd yma. Rydym ni'n croesawu unrhyw safbwyntiau neu ddulliau gwahanol.

**Rhowch ychydig o wybodaeth amdanoch chi'ch hun a/neu'ch sefydliad isod:**

## Math o Ymatebydd

**Cwestiwn 32:** Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau sut rydych chi'n ymateb i'r ymgynghoriad hwn?

- Ar ran busnes neu sefydliad
- Aelod o'r cyhoedd/defnyddiwr
- Gwyddonydd neu academydd
- Gweithiwr proffesiynol clinigol
- Swyddog bwyd awdurdod lleol

**Os nad ydych chi’n gweithio i fusnes neu sefydliad, peidiwch ag ateb cwestiynau 33 i 41**

**Cwestiwn 33:** Beth yw enw eich busnes neu sefydliad?

**Cwestiwn 34:** Ai hwn yw’r ymateb swyddogol gan eich sefydliad neu fusnes?

Ydy

Nac ydy, rwy’n ymateb yn bersonol

**Cwestiwn 35:** Pa un o’r canlynol sy’n disgrifio’r sefydliad neu’r busnes rydych chi’n ymateb ar ei ran? (Ticiwch bob un sy’n berthnasol)

- Busnes gweithgynhyrchu (gan gynnwys pob math o weithgynhyrchu mewn ffatri fwyd)
- Busnes manwerthu
- Busnes cyfanwerthu
- Busnes sy’n cludo bwyd
- Busnes cynhyrchwyr cynradd (er enghraifft, amaethyddiaeth)
- Busnes arlwyo
- Sefydliad (er enghraifft, ysbyty, cartref gofal, ysgol/coleg)
- Cydymffurfiaeth a gorfodi (er enghraifft, Awdurdod Lleol, Cyfreithwyr)
- Sefydliad Iechyd
- Sefydliad gwyddoniaeth neu academaidd
- Sefydliad elusennol neu drydydd sector
- Corff masnach
- Arall (nodwch)

**Cwestiwn 36:** Pa un sy’n disgrifio orau sut mae bwyd yn cael ei becynnu yn eich busnes? (Dewiswch bob un sy’n berthnasol)

- Wedi’i becynnu ymlaen llaw i’w werthu’n uniongyrchol (PPDS)
- Bwyd heb ei becynnu ymlaen llaw (bwyd rhydd)
- Bwyd wedi’i becynnu ymlaen llaw
- Dim un o’r uchod / Arall

**Cwestiwn 37:** Ydych chi'n darparu hyfforddiant a chefnogaeth neu gyngor ar y canlynol i'ch staff neu eich aelodau?

- Hylendid bwyd ac alergenau
- Hylendid bwyd yn unig
- Alergenau yn unig
- Dim un o'r uchod

**Cwestiwn 38:** Ydych chi'n darparu eich hyfforddiant ar hylendid bwyd ac alergenau ar wahân mewn gwahanol gyrsiau neu gyda'i gilydd yn yr un cwrs?

- Fel cyrsiau ar wahân
- Gyda'i gilydd mewn un cwrs

**Cwestiwn 39:** Beth yw maint eich busnes neu sefydliad?

- Mawr: gyda 250 neu ragor o weithwyr
- Maint canolig: gyda 50 i 249 o weithwyr
- Partneriaeth arferol: yn cael ei rheoli gan ddau neu ragor o bobl hunangyflogedig
- Bach: gyda 0 i 49 o weithwyr

**Cwestiwn 40:** A yw'ch busnes yn defnyddio labelu alergenau rhagofalus ar hyn o bryd? Er enghraifft, 'Gallai gynnwys ...' neu 'Wedi'i becynnu mewn ffatri lle ...'.

- Ydy
- Nac ydy
- Ddim yn siŵr

**Cwestiwn 41:** Pa wledydd a rhanbarthau y mae eich sefydliad yn eu cwmpasu? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)

- Cymru
- Gogledd Iwerddon
- Gogledd Ddwyrain Lloegr
- Gogledd Orllewin Lloegr
- Swydd Efrog a'r Humber
- Dwyrain Canolbarth Lloegr
- Gorllewin Canolbarth Lloegr
- Dwyrain Lloegr
- Llundain
- De Ddwyrain Lloegr
- De Orllewin Lloegr
- Mae'n well gen i beidio â dweud

## Amdanoch chi

**Cwestiwn 42:** Oes gennych chi, neu a ydych chi'n gofalu am rywun sydd â gorsensitifrwydd i fwyd (alergedd bwyd, anoddefiad bwyd neu glefyd seliag) sy'n ymwneud ag unrhyw un o'r alergenau canlynol? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)

- Seleri
- Grawnfwydydd sy'n cynnwys glwten (fel haidd a cheirch)
- Cramenogion (*crustaceans*) – fel corgimychiaid, crancod a chimychiaid
- Wyau
- Pysgod
- Bysedd y blaidd (*lupin*)
- Llaeth
- Molysgiaid (*molluscs*) – fel cregyn gleision ac wystrys
- Mwstard
- Pysgnau
- Sesame
- Ffa soia
- Sylffwr deuocsid a sylffitau
- Cnau coed (fel cnau almon, cnau cyll, cnau Ffrengig, cnau Brasil, cnau cashew, cnau pecan, cnau pistachio a chnau macadamia)
- Nid oes gennyf orsensitifrwydd i fwyd, nac yn gofalu am rywun sydd â gorsensitifrwydd i fwyd

**Cwestiwn 43:** Beth yw eich rhyw?

- Benywaidd
- Gwrywaidd
- Mae’n well gen i beidio â dweud

**Cwestiwn 44:** A yw’r rhyw rydych chi’n uniaethu ag ef yr un peth â’ch rhyw pan gawsoch eich geni?

- Ydy
- Nac ydy
- Mae’n well gen i beidio â dweud

**Cwestiwn 45:** Beth yw eich oedran?

- dan 16
- 16-24
- 25-34
- 35-44
- 45-54
- 55-64
- 65-74
- 75-84
- 85+
- Mae’n well gen i beidio â dweud

**Cwestiwn 46:** Beth yw eich grŵp ethnig?

- Gwyn
- Grwpiau ethnig cymysg neu luosog
- Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig
- Du Affricanaidd, Caribïaidd neu Ddu Prydeinig
- Grŵp ethnig arall
- Mae'n well gen i beidio â dweud

**Cwestiwn 47:** Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau eich cefndir Gwyn?

- Cymreig, Saesnig, Albanaidd, Gwyddel/Gwyddeles o Ogledd Iwerddon neu Brydeinig
- Gwyddelig
- Sipsiwn neu Deithiwr Gwyddelig
- Roma
- Unrhyw gefndir Gwyn arall
- Mae'n well gen i beidio â dweud

**Cwestiwn 48:** Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau eich cefndir grwpiau ethnig Cymysg neu Luosog?

- Gwyn a Du Caribïaidd
- Gwyn a Du Affricanaidd
- Gwyn ac Asiaidd
- Unrhyw gefndir ethnig Cymysg neu Luosog arall
- Mae'n well gen i beidio â dweud

**Cwestiwn 49:** Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau eich cefndir Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig?

- Indiaidd
- Pacistanaidd
- Bangladeshaidd
- Tsieineaidd
- Unrhyw gefndir Asiaidd arall
- Mae'n well gen i beidio â dweud

**Cwestiwn 50:** Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau cefndir Du, Affricanaidd, Caribïaidd neu Ddu Prydeinig?

- Caribïaidd
- Cefndir Affricanaidd
- Unrhyw gefndir Du, Du Prydeinig neu Garibïaidd arall
- Mae'n well gen i beidio â dweud

**Cwestiwn 51:** Pa un o'r datganiadau canlynol sy'n disgrifio orau eich cefndir?

- Arabaidd
- Unrhyw grŵp ethnig arall
- Mae'n well gen i beidio â dweud

**Cwestiwn 52:** Beth yw eich prif iaith?

- Saesneg
- Arall (nodwch)

**Cwestiwn 53:** Ym mha wlad rydych chi'n byw?

- Lloegr
- Cymru
- Gogledd Iwerddon
- Mae'n well gen i beidio â dweud

**Cwestiwn 54:** Ym mha ranbarth o Loegr ydych chi'n byw?

- Gogledd Ddwyrain Lloegr
- Gogledd Orllewin Lloegr
- Swydd Efrog a’r Humber
- Dwyrain Canolbarth Lloegr
- Gorllewin Canolbarth Lloegr
- Dwyrain Lloegr
- Llundain
- De Ddwyrain Lloegr
- De Orllewin Lloegr
- Mae’n well gen i beidio â dweud

**Cwestiwn 55:** A oes gennych chi unrhyw gymwysterau addysgol y cawsoch dystysgrif ar eu cyfer?

- Oes
- Nac oes
- Mae’n well gen i beidio â dweud

**Cwestiwn 56:** A oes gennych chi unrhyw gymwysterau proffesiynol, galwedigaethol neu gymwysterau eraill sy’n gysylltiedig â gwaith y cawsoch dystysgrif ar eu cyfer?

- Oes
- Nac oes
- Mae’n well gen i beidio â dweud

**Cwestiwn 57:** Beth oedd eich cymhwyster uchaf?

- Ar lefel gradd neu’n uwch
- Math arall o gymhwyster
- Mae’n well gen i beidio â dweud

**Cwestiwn 58:** Yn ystod y saith niwrnod diwethaf, a oeddech chi’n gwneud unrhyw un o’r canlynol? Cofiwch gynnwys gwaith achlysurol neu dros dro hyd yn oed os mai dim ond am awr

- Gweithio fel cyflogai
- Yn hunangyflogedig neu'n llawrydd
- I ffwrdd o'r gwaith yn sâl dros dro, ar wyliau neu wedi eich diswyddo dros dro
- Ar absenoldeb mamolaeth neu dadolaeth
- Gwneud unrhyw fath arall o waith â thâl
- Wedi ymddeol
- Astudio
- Gofalu am gartref neu deulu
- Salwch neu anabledd hirdymor
- Arall
- Mae'n well gen i beidio â dweud

## Rhagor o wybodaeth

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i baratoi yn unol ag egwyddorion ymgynghori Llywodraeth Ei Mawrhydi.

I gael gwybodaeth am sut mae'r ASB yn trin eich data personol, cyfeiriwch at yr hysbysiad preifatrwydd.

Ar ran yr ASB, hoffwn ddiolch yn fawr i chi am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn.

Yn gywir,

Rebecca Sudworth

Cyfarwyddwr Polisi, yr ASB

# Atodiad A: Gwybodaeth safonol am yr ymgynghoriad

## Datgelu'r wybodaeth a ddarperir gennych

Efallai caiff yr wybodaeth a roddir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn ei chyhoeddi i bartïon eraill neu ei datgelu yn unol â'r cyfundrefnau mynediad at wybodaeth (yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os dymunwch i'r wybodaeth yr ydych yn ei rhoi gael ei thrin yn gyfrinachol, dylech fod yn ymwybodol bod yna God Ymarfer statudol o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef. Mae'n ymdrin, ymhlith pethau eraill, â rhwymedigaethau cyfrinachedd.

O ystyried hyn, byddai'n ddefnyddiol pe gallech esbonio i ni pam eich bod yn ystyried bod yr wybodaeth a roddwyd gennych yn gyfrinachol. Os cawn gais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cadw cyfrinachedd ym mhob sefyllfa.

Ni fydd unrhyw ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system technoleg gwybodaeth, ar ei ben ei hun, yn cael ei ystyried fel un sy'n rhwymo.

Yr ASB fydd 'Rheolydd' y data personol a ddarperir i ni.

## Pam ein bod ni'n casglu eich data personol?

Mae eich data personol yn cael ei gasglu fel rhan hanfodol o'r broses ymgynghori, fel y gallwn gysylltu â chi ynglŷn â'ch ymateb ac at ddibenion ystadegol. Efallai hefyd y byddwn ni'n ei ddefnyddio i gysylltu â chi am faterion cysylltiedig.

Mae Deddf Diogelu Data 2018 yn datgan y gall yr ASB, fel adran o'r llywodraeth, brosesu data personol fel y bo angen er mwyn cyflawni'n effeithiol dasg sydd er budd y cyhoedd, hynny yw, ymgynghoriad.

## Beth byddwn ni'n ei wneud â'r wybodaeth?

Mae'r holl ddata personol rydym ni'n ei brosesu yn cael ei gadw ar weinyddion o fewn yr UE. Mae ein gwasanaethau cwmwl wedi'u caffael drwy gytundebau fframwaith y Llywodraeth a'u hasesu yn erbyn egwyddorion diogelwch cwmwl y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol.

Nid oes gan drydydd partïon fynediad at eich data personol oni bai bod y gyfraith yn caniatáu iddynt wneud hynny. Bydd yr ASB weithiau'n rhannu data gydag adrannau eraill y llywodraeth, cyrff cyhoeddus a sefydliadau sy'n cyflawni swyddogaethau cyhoeddus i'w cynorthwyo i gyflawni eu dyletswyddau statudol, neu pan fydd hynny er budd y cyhoedd.

## Beth yw eich hawliau?

Mae gennych chi'r hawl i weld yr wybodaeth sydd gennym ni amdanoch chi drwy wneud cais ysgrifenedig i'r cyfeiriad e-bost isod.  Os ydych chi ar unrhyw adeg o'r farn bod yr wybodaeth rydym ni'n ei phrosesu amdanoch chi yn anghywir, gallwch chi wneud cais i'w chywiro. Os hoffech chi wneud cwyn am y ffordd rydym ni wedi trin eich data personol, gallwch chi gysylltu â'n Swyddog Diogelu Data a fydd yn ymchwilio i'r mater.

Os nad ydych chi'n fodlon â'n hymateb neu os ydych chi o'r farn nad ydym yn prosesu eich data personol yn unol â'r gyfraith, fe allwch chi gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, neu drwy ffonio 0303 123 1113.

Ein Swyddog Diogelu Data yn yr ASB yw Arweinydd y Tîm Rheoli Gwybodaeth a Diogelwch. Gallwch chi gysylltu drwy anfon e-bost at: informationmanagement@food.gov.uk